COVID-19 Update: 2 July

Here is tonight's COVID-19 update from Cardiff Council, covering: Cardiff's first official marriage ceremony in more than three months; Llanishen Hub and Llandaff North & Gabalfa Hub to reopen; a reminder that fortnightly garden waste collections return from this Monday, 6th July; and Test, Trace, Protect - using the coronavirus home testing kit.

First wedding in more than 3 months takes place at Cardiff Register Office

Cardiff's first official marriage ceremony since the start of the Covid-19 pandemic has taken place at Cardiff Register Office today – more than 3 months since a happy couple last tied the knot there.

The small, socially-distanced ceremony was attended by the bride, groom and two witnesses.

The wedding comes after recent changes to Welsh Government legislation and the issuing of new guidance by the General Register Office, part of the UK government.

A maximum of 10 guests can now attend marriages and civil partnerships held in the small ceremony room at the Register Office, but Welsh Government / Public Health Wales guidelines and social distancing rules must be followed at all times.

Cabinet Member for Environment, Cllr Michael Michael, said: "We're delighted that our Registrar service can begin offering these small wedding and civil partnership ceremonies again. They're not going to suit everyone – unfortunately under current Covid-19 rules, couples looking to share their day with extended family and friends will have to be patient – but for those looking for a simple ceremony with a handful of guests, this will be welcome news."

Ceremonies at approved premises such as hotels are still not being held as they are dependent on lockdown restrictions being lifted further and are awaiting specific guidance for Wales from the Welsh Government and General Register Office.

Ceremonies at religious venues such as churches, chapels and temples can also now take place, but again Welsh Government / Public Health Wales guidelines and social distancing rules must be adhered to.

Wedding receptions are still prohibited under current social distancing requirements.

Llanishen Hub and Llandaff North & Gabalfa Hubs to reopen

Two more community hubs are set to open their doors next week as part of the phased return of services from the city's hubs.

Llandaff North & Gabalfa Hub and Llanishen Hub will reopen to customers, on an appointment-only basis (except for emergency cases) on Monday, July 6th. Green

recycling and food waste bags can be collected too, without the need for an appointment.

Customers will be able to access the new click and collect library service from these two hubs, as well as a range of advice services such as Into Work, housing, benefits and money advice, when enquiries cannot be dealt with over the phone or email.

The two hubs take the total number of open hubs in the city to six, joining Central Library Hub, St Mellons Hub, Ely & Caerau Hub and The Powerhouse which have remained open for appointments and emergency cases only.

Cabinet Member for Housing and Communities, Cllr Lynda Thorne, said: “Cardiff’s hubs are important community facilities and our four core hubs that have remained open throughout the Coronavirus emergency have played a vital role in the city’s response to the pandemic.

“After introducing a new click and collect library service to the core hubs last month, I’m pleased that we are now in a position to offer that service and other advice and support services on an appointment-only basis from Llanishen and Llandaff North Hub from next week.”

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24240.html

Kerbside garden waste collections return to normal on July 6

Fortnightly, kerbside collections of Cardiff’s green, garden waste are to return from Monday, July 6.

Residents can check green waste collection days and dates for their area from July 6 here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/When-are-my-bins-collected/Pages/default.aspx

Collections should follow the pattern residents were used to before lockdown began.

The return of the fortnightly garden waste collection means that all normal kerbside collections are back in place across the city except for the glass bottle and jar pilot.

Residents living in the 14,000 homes which took part in the glass pilot are asked to continue to put their bottles and jars into their green recycling bags, rather than their blue caddy, until further notice.

To help council staff keep the streets clean residents are also being asked to use their brown food caddies for all vegetable peelings and leftover food waste, and to make sure all their recyclables are washed out before they go into their green bags for collection.

The only waste that should be put into the green wheelie-bin are leaves, grass cuttings, plant or flower cuttings or small twigs or branches.

Test, Trace, Protect - Using the coronavirus home testing kit

If you have a persistent cough, high temperature or loss of taste or smell, you may have coronavirus.

You must request a test as soon as possible. Tests are most effective when taken in the first 5 days of symptoms, so you should take this test as soon as you receive it.

It's very important to follow the instructions for the test. Here's Jamie Roberts showing you how to take the test:
https://gov.wales/using-coronavirus-home-testing-kit

Watch this video in full first before you begin the process. You can then watch it back if you want to go over any steps.

Get a test. Stop the spread. Keep Wales safe.

Diweddariad COVID-19: 2 Gorffennaf

Dyma ddiweddariad COVID-19 Cyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: y briodas gyntaf ers dros 3 mis yn digwydd yn Swyddfa Gofrestru Caerdydd; Hyb Llanisien a Hybiau Ystum Taf a Gabalfa i ailagor; Casgliadau gwastraff gardd wrth ymyl y ffordd i ddychwelyd i'r patrwm arferol ar 6 Gorffennaf; a Profi, Olrhain, Diogelu - Defnyddio'r prawf gartref coronafeirws.

Y briodas gyntaf ers dros 3 mis yn digwydd yn Swyddfa Gofrestru Caerdydd

Mae seremoni briodas swyddogol gyntaf Caerdydd ers dechrau pandemig Covid-19 wedi cael ei chynnal yn Swyddfa Gofrestru Caerdydd heddiw – dros 3 mis ers y briodas ddiwethaf yno.

Yn bresennol yn y seremoni fechan, oedd yn dilyn y canllawiau ymbellhau cymdeithasol, roedd y briodferch, y priodfab a dau dyst.

Cynhaliwyd y briodas yn sgil newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a chyhoeddi canllawiau newydd gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, sy'n rhan o Lywodraeth y DU.

Gall hyd at 10 o westeion bellach fynychu priodasau a phartneriaethau sifil a gynhelir yn yr ystafell seremonïau fach yn y Swyddfa Gofrestru, ond rhaid dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru a rheolau ymbellhau cymdeithasol bob amser.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, y Cynghorydd Michael Michael: "Rydyn ni wrth ein bodd bod ein gwasanaeth Cofrestru'n gallu dechrau cynnig

seremonïau priodas a phartneriaethau sifil bach eto. Dydyn nhw ddim yn mynd i weddu i bawb – yn anffodus o dan reolau presennol Covid-19, bydd yn rhaid i gyplau sy'n awyddus i rannu eu diwrnod gyda theulu a ffrindiau estynedig fod yn amyneddgar – ond i'r rhai sy'n chwilio am seremoni syml gydag ond ychydig o westeion, bydd hyn yn newyddion i'w groesawu."

Nid oes modd cynnal seremonïau mewn safleoedd cymeradwy fel gwestai o hyd. Bydd angen llacio rhagor o gyfyngiadau symud cyn i'r rheiny ddigwydd eto, ac mae'r safleoedd yn disgwyl canllawiau penodol ar gyfer Cymru gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

Gellir cynnal seremonïau mewn lleoliadau crefyddol fel eglwysi, capeli a themlau erbyn hyn hefyd, ond unwaith eto rhaid cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru a rheolau ymbellhau cymdeithasol.

Mae brecwastau priodas yn dal i gael eu gwahardd o dan y rheolau ymbellhau cymdeithasol presennol.

Hyb Llanisien a Hybiau Ystum Taf a Gabalfa i ailagor

Disgwylir i ddau hyb cymunedol arall agor eu drysau yr wythnos nesaf yn rhan o'r broses o ailddechrau gwasanaethau yn hybiau'r ddinas yn raddol.

Bydd Hyb Ystum Taf a Gabalfa a Hyb Llanisien yn ailagor i gwsmeriaid, ar sail apwyntiadau'n unig (heblaw am achosion brys) ddydd Llun 6 Gorffennaf. Gellir casglu bagiau gwastraff bwyd ac ailgylchu gwyrdd heb drefnu apwyntiad hefyd.

Bydd cwsmeriaid yn gallu defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell clicio a chasglu newydd yn y ddau hyb hyn, yn ogystal ag ystod o wasanaethau cyngor megis y Gwasanaeth i Mewn i Waith, tai, budd-daliadau a chyngor ariannol, lle na ellir delio gydag ymholiadau dros y ffôn neu dros e-bost.

Felly gyda'r ddau hyb hyn yn agor, gan ymuno â Hyb y Llyfrgell Ganolog, Hyb Llaneirwg, Hyb Trelái a Chaerau a The Powerhouse sydd wedi aros ar agor ar gyfer apwyntiadau ac achosion brys yn unig, mae chwe hyb yn y ddinas bellach ar agor.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne: "Mae hybiau Caerdydd yn gyfleusterau cymunedol pwysig ac mae ein pedwar hyb craidd sydd wedi aros ar agor trwy gydol argyfwng y Coronafeirws wedi chwarae rhan hanfodol yn ymateb y ddinas i'r pandemig.

"Ar ôl cyflwyno gwasanaeth llyfrgell clicio a chasglu newydd yn yr hybiau craidd y mis diwethaf, rwy'n falch ein bod bellach mewn sefyllfa i gynnig y gwasanaeth hwnnw a gwasanaethau cyngor a chymorth eraill ar sail apwyntiadau'n unig yn Hyb Llanisien a Hyb Ystum Taf o'r wythnos nesaf."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24241.html

Casgliadau gwastraff gardd wrth ymyl y ffordd i ddychwelyd i'r patrwm arferol ar 6 Gorffennaf

Mae casgliadau gwastraff gardd o ymyl y ffordd Caerdydd yn mynd i ddychwelyd bob pythefnos o ddydd Llun 6 Gorffennaf.

Gall preswylwyr wirio diwrnodau casglu gwastraff gwyrdd a dyddiadau ar gyfer eu hardal o 6 Gorffennaf yma:
http://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/Pryd-gaiff-fy-miniau-eu-casglu/Pages/default.aspx

Dylai casgliadau ddilyn y patrwm yr oedd preswylwyr yn gyfarwydd ag ef cyn y cyfyngiadau.

Mae'r ffaith fod y casgliad gwastraff gardd bob pythefnos wedi'i adfer yn golygu bod pob casgliad arferol o ymyl y ffordd bellach yn ôl yn y ddinas ac eithrio'r cynllun peilot poteli gwydr a jariau.

Gofynnir i drigolion sy'n byw yn y 14,000 o gartrefi a gymerodd ran yn y cynllun peilot gwydr barhau i roi eu poteli a'u jariau yn eu bagiau ailgylchu gwyrdd, yn hytrach na'u cadi glas hyd nes y ceir hysbysiad pellach.

Er mwyn helpu staff y Cyngor i gadw'r strydoedd yn lân, gofynnir i drigolion hefyd ddefnyddio eu cadis bwyd brown ar gyfer eu holl bilion llysiau a gwastraff bwyd dros ben, a sicrhau bod eu holl ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu golchi cyn iddynt fynd i'r bagiau gwyrdd i'w casglu.

Yr unig wastraff y dylid ei roi yn y biniau gwyrdd yw dail, gwair wedi ei dorri, toriadau planhigion neu flodau a brigau a changhennau bychain.

Profi, Olrhain, Diogelu - Defnyddio'r prawf gartref coronafeirws

Os oes gennych beswch parhaus, tymheredd uchel neu rydych wedi colli'r gallu i flasu neu arogli, efallai bod gennych y coronafeirws.

Rhaid i chi ofyn am brawf cyn gynted â phosibl. Mae'r prawf yn fwy effeithiol yn ystod 5 diwrnod cyntaf y symptomau, felly dylech gymryd y prawf cyn gynted ag yr ydych yn ei dderbyn.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r prawf. Dyma Jamie Roberts I ddangos i chi sut i gymryd y prawf:
https://llyw.cymru/defnyddior-prawf-gartref-coronafeirws

Gwyliwch y fideo yma i gyd cyn cychwyn ar y broses. Gallwch ailwylio os am fynd dros unrhyw gamau penodol.

Cael prawf. Atal lledaeniad. Diogelu Cymru.